*Mae'r teulu Morgan yn mynd ar wyliau i Fetws-y-Coed. Heddiw mae Mair, Ieuan, y plant a Carlo yn penderfynu be i wneud.*

Llinos: Be fyddwn ni'n wneud ar ôl brecwast Mam?

Mair: Fasech chi'n hoffi ymweld a tŷ hyll, neu fasech chi'n hoffi siopa ym Metws, neu fasech chi'n hoffi mynd am dro i Rhaedr Ewynnol?

Ieuan: Dw i'm isio mynd i siopa. Ti'n cofio yr amser diwetha pan wnest ti fynd o gwmpas y dre a phrynu dim byd o gwbl?

Gerallt: Dw i'm yn gwneud hynny chwaith!

Mair: Be amdanat ti Lowri?

Lowri: Dw i'm isio ymweld a tŷ hyll. Dw i wedi bod yna yn barod efo'r ysgol. Mae'n ddiflas!

Mair: Wel, dyna fo, well i ni fynd am dro.

Ieuan: Dan ni'n barod?

Gerallt: Nac ydan, dydy Llinos ddim yn gwisgo sgidiau.

Mair: Llinos, cer i dy 'stafell wely. Oedden nhw dan y gwely bore 'ma.

*Mae Llinos yn dod yn ôl efo sgidiau.*

Lowri: Dan ni'n barod rwan?

Y plant: Ydan.

Mair: I ffwrdd a ni i'r Rhaeadr Ewynnol!

Llinos: Ww Mam, edrychwch ar y dail del, maen nhw'n goch llachar.

Mair: Fel gwallt Anti Jini a deud a gwir!

Ieuan: 'Sgen ti bres Mair? Mae'n bunt yr un i fynd trwy'r giat.

Mair: Mae gen i ddigon o bres, paid a phoeni. Wna i dalu.

*Mae Carlo yn rhedeg ymlaen ac mae Llinos yn dilyn.*

Llinos: Mam, Mam, edrychwch ar Carlo, mae o'n nofio yn yr afon!

Mair: O na! Ddylai fo ddim bod yn nofio yn yr afon.

*Mae Carlo yn dod allan yr afon ac mae o'n ysgwyd dŵr dros bawb.*

Lowri: Carlo, ci drwg! Dan ni'n wlyb rwan.

Geraint: Mam, mae Llinos wedi syrthio ar y creigiau, mae hi'n fudr unwaith eto!

Mair: O Llinos! Reit te, nawn ni fynd yn ôl i'r gwesty.

Lowri: Pwy sy isio hufen iâ?

Llinos: Fi, fi. Dad, plis ga i Cornetto?

Ieuan: Cei, siwr.

*Mae'r teulu Morgan yn eistedd ar y wâl, yn bwyta eu hufen iâ.*

Mair: Wnaethoch chi fwynhau heddiw? Be oeddech chi'n wedi fwynhau y gorau?

## Be sy'n digwydd nesa tybed?